

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	15 MAI 2018
TEITL YR ADRODDIAD:	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Adroddiad Blynyddol 2017/18
ADRODDIAD GAN:	Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2017/18

1. Rhagarweiniad

Rhodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gefnogir gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth yn yr Awdurdod o ran staff, swyddfeydd ac adnoddau eraill er mwyn cyflawni dyletswyddau a swyddogaethau Gwasanaethau Democrataidd. Dan y Mesur, rhaid i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i adrodd ar faterion o'r fath i'r Cyngor.

Dyma'r chweched adroddiad blynyddol y mae'r Pwyllgor wedi ei ddarparu ers ei sefydlu yn 2012.

Yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym mis Mai 2017, ail-etholwyd 21 o Aelodau a 9 o Aelodau newydd. Fel rhan o drefniadau llywodraethiant y Cyngor, cafodd yr holl Aelodau ddisgrifiadau swydd a oedd yn amlinellu eu gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau. Yn unol â'r arfer yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi rhoddi lpads i'r holl Aelodau fel y gallant wneud eu gwaith a chael mynediad i bapurau pwyllgor a dogfennau perthnasol eraill. Cydnabuwyd y cafwyd rhai problemau ymarferol gyda'r dyfeisiau hyn a bod angen cymorth a hyfforddiant amserol ar Aelodau i gael y budd gorau ohonynt. Mae sesiynau galw heibio yn parhau i gael eu cynnal ar gyfer Aelodau yn chwarterol gyda chymorth staff yr Adain TGCh. Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn monitro'r trefniadau yn ystod y 12 mis nesaf.

2. Rhaglen Waith y Pwyllgor

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2016/17 a cheir ynddo hefyd sylwadau ar y statws cyfredol.

Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y Pwyllgor ar y meysydd canlynol:

- Cynlluniau Hyfforddi a Datblygu Aelodau
- Gwe-ddarlledu cyfarfodydd

- Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Siarter Cymru ar gyfer datblygu a chefnogi Aelodau
- Adroddiadau Blynyddol Aelodau
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio system Etholiadol Llywodraeth Leol
- Amseriad cyfarfodydd a'r amserlen ar gyfer 2018/19

Yn y tabl isod, ceir crynodeb o'r materion a drafodwyd ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Dyddiad y Pwyllgor	Pwnc	Statws Cyfredol
27/9/2017	Ymgynghoriad ar ddiwygio system etholiadol Llywodraeth Leol	Cafodd y Pwyllgor y cyfle i wneud sylwadau ar gynigion Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid y system bleidleisio a chofrestru cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf.
	Cynllun Hyfforddi a Datblygu	Ystyriwyd adroddiad cynnydd ar y cynllun hyfforddi a datblygu, gan gynnwys e-ddysgu. Cyflwynwyd diweddariad pellach i'r pwyllgor ym mis Mawrth 2018.
	Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau	Yn yr adroddiad hwn, cafwyd crynodeb o wybodaeth ynghylch nifer yr adroddiadau blynyddol ar gyfer 2016/17 a baratowyd gan yr Aelodau a gafodd eu hail-ethol yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2017. Nodwyd yn yr adroddiad bod 20 o'r 21 o Gynghorwyr a ddychwelodd wedi paratoi adroddiad blynyddol.
13/12/2017	Adroddiad drafft yr IRP ar gyfer 2018/19	Cyflwynwyd crynodeb o'r cynigion i'r pwyllgor. Cyflwynwyd cynigion terfynol i'r pwyllgor ar 20 Mawrth 2018 gan gynnwys y cynnydd yn y lwfansau sylfaenol a gwneud i ffwrdd â lefelau cyflog dwy-haen ar gyfer cadeiryddion y Pwyllgor Gwaith a'r pwyllgorau. Cyflwynir adroddiad ar

		wahân i'r Cyngor ar 15 Mai, 2018.
	Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau	Argymhellodd yr adroddiad fod yn Cyngor yn ailymgeisio am y Siarter CLILC a ddyfarnwyd i'r Cyngor yn 2014. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i baratoi hunan-asesiad. Cyflwynwyd diweddariad pellach i'r pwyllgor ym mis Mawrth 2018.
	Amseriad Cyfarfodydd y Cyngor	Roedd yr adroddiad hwn yn delio gyda'r angen i adolygu amseriad cyfarfodydd y Cyngor. Argymhellodd y Pwyllgor na ddylid newid yr amseroedd a derbyniwyd yr argymhelliad hwnnw gan y Cyngor ar 28 Chwefror, 2018.
20/3/2018	Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2018/19	Mae'r wybodaeth wedi'i chrynhai uchod.
	Adroddiadau Blynyddol Aelodau 2017/18	Yn yr adroddiad hwn, amlinellwyd yr amserlen ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn mis Mehefin 2018. Mae cynnydd wrthi'n cael ei fonitro ar hyn o bryd yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grwpiau.
	Cynllun Datblygu a Hyfforddi Aelodau 2017/18	Gweler y sylwadau uchod. Bydd adroddiad ar wahân ar raglen 2018/19 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 15/5/18. Mae'r cynnydd o ran paratoi adolygiadau datblygiad personol gan Gynghorwyr wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gan yr Arweinyddion Grwpiau.
	Siarter Datblygu a Cefnogi Aelodau	Gweler y sylwadau uchod os gwelwch yn dda. Nid yw'r hunan-asesiad wedi cael ei gyflwyno eto ac mae angen cynnwys gwybodaeth ar y cynnydd mewn perthynas â chwblhau adolygiadau datblygiad personol gan

		Gynghorwyr. Bwriedir cyflwyno diweddariadau pellach i'r pwyllgor yn 2018.
	Gwe-ddarlledu cyfarfodydd	Roedd yr adroddiad hwn yn crynhoi'r wybodaeth ar we-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r ystadegau ers 2016. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ail-dendro yn ddiweddar am y 3 blynedd nesaf. Dyfarnwyd y contract i Public-i.
	Rhaglen cyfarfodydd y Cyngor am 2018/19	Cadarnhawyd amserlen cyfarfodydd 2018/19 gan y Pwyllgor.

3. Argymhelliad:

Gofynnir i'r Cyngor Sir dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2017/18.

Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
02/05/2018